

Gwybodaeth thema i rieni Bl.3 RhGP-Tymor yr Haf

I'r dyddiadur.....:-

Noson Rieni - Gorffennaf 6^{ed} a 7^{ed} 3.30 – 5

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol - Mai 5^{ed}-12^{ed}

Mabolgampau Bl. 3 a 4 – Mehefin 16^{eg}

Trip diwedd y flwyddyn – manylion i ddilyn

IAITH / HANES

Cymraeg/Hanes: 'Ta-ta Tryweryn' - Gwenno Hughes. Datblygwn ein gwaith creadigol a ffeithiol gan ddefnyddio'r nofel a'r ffeithiau hanesyddol am y digwyddiad yma.

Saesneg: 'The Twits' - Roald Dahl

Drwy'r nofel, cawn gyfle i ysgrifennu llythyr ffurfiol, portread, gwaith dychmygol ac erthygl papur newydd.

DARLLEN

Bydd cyfleoedd darllen unigol, grŵp, gwrando ar storïau ar CD

Bydd ymarferion sillafu yn parhau yn wythnosol ar **ddydd Mawrth**.

MATHEMATEG

Byddwn yn paratoi'r disgyblion ar gyfer y Profion Cenedlaethol drwy adolygu dulliau cyfrifo'r 4 rheol, gwaith ar amser ac arian. Gwneir gwaith ar ffracsiynau, siapiau ac onglau a thrin data

****Mae'n bwysig ymarfer y tablau.****

GWYDDONIAETH

Byddwn yn cynnal arbrofion yn edrych ar sut mae modd newid cyflwr gwahanol ddefnyddiau. Dysgu am y 'Cylch dŵr'.



DAEARYDDIAETH

Astudiaeth a gwaith maes ar Afon Cefni.

ADDYSG GORFFOROL

Athletau, taro a maesu. – p'nawn dydd Mercher

CELFF

Astudio gwaith yr arlunydd Hokusai – 'Y Don' - Print Siapaneidd

ADDYSG GREFYDDOL

Parhau â gwaith Hindwaeth. Beth sy'n digwydd mewn Bedydd Cristion?

GWAITH CARTREF

Gosodir gwaith cartref ar **ddydd Gwener**, a dylid ymdrechu i'w ddychwelyd erbyn y **dydd Mercher canlynol**.

TECHNOLEG GWYBODAETH

Defnyddio amryw o raglenni i ddiwallu gofynion y Cwricwlwm e.e. Word, Publisher, Logo. Defnyddio i-pads ar gyfer tasgau darllen.

CERDDORIAETH

Cyfansoddi taith Afon Cefni yn dilyn gwrando ar 'Vltava' – Smetana.